**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (Y TRALLWNG, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU A BEICWYR DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn hwyluso cynnal digwyddiad ras 10K y Trallwng ar gefnffordd yr A458 yn y Trallwng, Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio cerbydau'r digwyddiad a rhai'r gwasanaethau cyhoeddus a'r gwasanaethau brys), a phob beiciwr rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A458 yn y Trallwng a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol yn ystod yr adegau a ddisgrifir yn yr Atodlen ar 26 Mawrth 2023.

Bydd arwyddion yn cael eu harddangos i roi hysbysiad ymlaen llaw cyn y digwyddiad.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A458 TRUNK ROAD (WELSHPOOL, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES AND CYCLISTS) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to facilitate the holding of the Welshpool 10K Race event on the A458 trunk road at Welshpool, Powys.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than event, public service and emergency service vehicles) and cyclists from proceeding on the lengths of the A458 trunk road at Welshpool as described in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in the Schedule.

It is expected that the prohibitions, which will be signed accordingly, will operate during the times described in the Schedule on 26 March 2023.

Advance notice signs will be displayed before the event.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**YR ATODLEN**

**Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro a Llwybrau Eraill**

1. Y darn o gefnffordd yr A458 o'r enw Broad Street a High Street sy'n ymestyn o gyffordd Broad Street â Berriew Street, Church Street a Severn Street hyd at gyffordd High Street â Jehu Road.

Bydd y gwaharddiadau ar y darn o'r gefnffordd uchod yn weithredol o 05:00 o'r gloch tan 13:00 o'r gloch.

Y llwybr arall i draffig sy'n teithio tua'r gogledd-orllewin fydd mynd tua'r de-ddwyrain ar y B4381 Severn Street a Severn Road i Gylchfan Old Station yr A483, tua'r gogledd ar Smithfield Road, tua'r

**SCHEDULE**

**Prohibition of Vehicles & Cyclists and Alternative Routes**

1. The length of the A458 trunk road known as Broad Street and High Street that extends from the junction of Broad Street with Berriew Street, Church Street and Severn Street to the junction of High Street with Jehu Road.

The prohibitions on the length of the trunk road above will operate from 05:00 hours until 13:00 hours.

The alternative route for north-westbound traffic will be south-eastbound along the B4381 Severn Street and Severn Road to the A483 Old Station

gogledd-orllewin ar Mill Lane, tua'r de-orllewin ar yr A458 Church Street, tua'r gogledd-orllewin ar Union Street a'r B4381 Brook Street i Gylchfan Raven, ac yna tua'r dwyrain ar hyd y darn o'r A458 o'r enw Raven Street/Mount Street/High Street. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain. Bydd trefnwyr y digwyddiad yn rheoli pob cerbyd sy'n dymuno mynd i eiddo ar New Street a Park Lane neu oddi yno.

2. Y darn o gefnffordd yr A458 o'r enw Berriew Street a Berriew Road sy'n ymestyn o gyffordd Berriew Road â'r C2005 Red Lane hyd at gyffordd Berriew Street â Broad Street, Church Street a Severn Street.

Bydd y gwaharddiadau ar y darn o'r gefnffordd uchod yn weithredol o 08:45 o'r gloch tan 09:25 o'r gloch.

Y llwybr arall i draffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd tua'r de ar yr A458 i Gylchfan Sarn y Bryn Caled, ac yna tua'r gogledd ar yr A483 i Gylchfan Old Station a pharhau i ddilyn y llwybr arall uchod. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de. Bydd trefnwyr y digwyddiad yn rheoli pob cerbyd sy'n dymuno mynd i eiddo ar Berriew Street, Oldford a Llyndu Terrace neu oddi yno.

Roundabout, northbound on Smithfield Road, north-westbound on Mill Lane, south-westbound on the A458 Church Street, north-westbound on Union Street and the B4381 Brook Street to Raven Roundabout and then eastbound along the length of the A458 known as Raven Street/Mount Street/High Street. Vice versa for eastbound traffic. All vehicles wishing to access or egress properties on New Street and Park Lane will be managed and controlled by event organisers.

2. The length of the A458 trunk road known as Berriew Street and Berriew Road that extends from the junction of Berriew Road with the C2005 Red Lane to the junction of Berriew Street with Broad Street, Church Street and Severn Street.

The prohibitions on the length of the trunk road above will operate from 08:45 hours until 09:25 hours.

The alternative route for northbound traffic will be to travel southbound on the A458 to Sarnybryncaled Roundabout, then northbound on the A483 to The Old Station Roundabout and continue via the alternative route above. Vice versa for southbound traffic. All vehicles wishing to access or egress properties on Berriew Street, Oldford and Llyndu Terrace will be managed and controlled by event organisers.